Dydd Nadolig

Cynhelir Oedfa Gymun am 10.00 o'r gloch yn Capel Coch fore dydd Nadolig.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Rhagfyr 10: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Robert Morris.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Rhagfyr 8: Parti Dolig CIC yn Y Ganolfan yn Llanberis rhwng 6.30 a 9.15 o'r gloch. Trefnir gan Goleg y Bala ar gyfer ieuenctid y Gogledd.

Dydd Sul, Rhagfyr 10: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Am 7.00 o'r gloch cawn ddathlu'r Nadolig yn y perfformiad o 'Gair yn Gnawd'.

Nos Fawrth, Rhagfyr 12: Cymdeithas Undebol Llanberis am 7.00 o'r gloch: Noson Garolau.

CARMEL

Dydd Llun, Rhagfyr 4: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Rhagfyr 8: Cynhelir Dwylo Prysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 10: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch.

BETHLEHEM

Nos Fawrth, Rhagfyr 5: Y Ffair Nadolig am 6.30 o'r gloch.

Sul, Rhagfyr 10: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 10: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Deiniolen

Rhagfyr 3
3.30 p.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 10
5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Rhagfyr 17
3.30 p.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 24
Oedfa yn Eglwys Llandinorwig

Y mis nesaf - Llanberis

Rhagfyr 3
10.00 a.m. - Mr John Roberts
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Parti Bytholwyrdd (Carolau)

Rhagfyr 10
10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
7.00 p.m. - 'Gair yn Gnawd'

Rhagfyr 17
10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa Nadolig y Plant a Pharti Nadolig yr Ysgol Sul

Rhagfyr 24
10.30 a.m. - Y Gweinidog

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 751: 03 Rhagfyr, 2017

Campbell v Welby

Mi wrandewais y dydd o'r blaen ar gyfweliad diddorol a wnaeth Alastair Campbell â Justin Welby, Archesgob Caergaint ar gyfer cylchgrawn o'r enw *GQ*. Gellir darllen a gweld y cyfweliad ar wefan *GQ*. Yno, yn hytrach nag ar dudalennau'r cylchgrawn, y gwelais ac y darllenais i sgwrs y ddau.

Ac ie, sgwrsio fu'r ddau, er gwaetha'r pennawd pryfoclyd *Alastair Campbell vs Archbishop of Canterbury*. Rwy'n deall yn iawn y byddai'r cylchgrawn am sicrhau'r gynulleidfa fwyaf posibl i'r cyfweliad, a pha ffordd well i wneud hynny na chyflwyno'r cyfweliad fel rhyw fath o gystadleuaeth rhwng y Cristion o Archesgob a'r anffyddiwr o holwr. Wedi'r cwbl, mae gwrthdaro a dadlau wrth fodd y cyfryngau.

Cafwyd trafodaeth dda. Dysgwyd cryn dipyn am y naill ddyn a'r llall, a hynny o bosibl am na chafwyd y dadlau poeth a awgrymwyd gan y pennawd. Nid Campbell yn erbyn yr Archesgob oedd hi mewn gwirionedd, ond Campbell a'r Archesgob yn trafod ac ymddiddan. Roedd gan yr holwr a'r un a holwyd barch at swyddogaeth ei gilydd, a pharch hefyd at y naill a'r llall. Yn amlwg, fe gafwyd cwestiynau heriol, ond oherwydd ei allu a'i bwyll fe lwyddodd yr Archesgob i osgoi dadl boeth, ac fe gadwyd y drafodaeth yn adeiladol a chall.

I mi, y ddau beth a oedd yn nodweddu cyfraniad Justin Welby i'r drafodaeth hon oedd ei ffydd a'i onestrwydd. Wrth gael ei holi am grefydd ac am 'doing God', roedd yr Archesgob yn mynnu mai ymateb personol i'r Arglwydd Iesu Grist a'r hyn a wnaeth ef drosom yw'r peth sylfaenol. Ac yr oedd yn fwy na pharod i herio Alastair Campbell yntau i ymateb i'r Iesu.

Ac yr oedd gonestrwydd yr Archesgob wrth geisio ateb rhai cwestiynau yn beth iach. Ni honnai wybod yr ateb i bob cwestiwn sy'n wynebu'r Eglwys heddiw. Roedd yn cydnabod ei fod ef fel llawer o bobl eraill yn holi Duw, er enghraifft wrth weld dioddefaint mawr o'i gwmpas. Ac yr oedd yn onest a gostyngedig wrth sôn amdano'i hun, heb unrhyw ymffrost nac arlliw o hunan bwysigrwydd, fel dyn na fel archesgob.

Ac oherwydd ffydd a gonestrwydd yr Archesgob (ynghyd â mesur go dda o allu a doethineb) fe gafwyd cyfweliad sy'n gallu bod yn wers i bob Cristion ac eglwys. Yn aml iawn, awn i ddadlau ymhlith ein gilydd a chyda phobl eraill ynghylch pethau'r Ffydd. Gwell na dadlau fyddai i ninnau dystio i Iesu Grist a'i waith trosom. Ond os dadlau, gwnawn hynny fel Justin Welby, mor gwrtais a gonest â phosibl, gan barchu pobl y byddwn yn trafod â hwy. Mae modd glynu wrth yr hyn a gredwn, ac wrth y gwirionedd a ddatguddiwyd yn yr Arglwydd Iesu Grist, heb fod yn amharchus o bobl sy'n anghytuno â ni neu'n credu'n wahanol i ni, a heb roi'r argraff chwaith ein bod ni'n gwybod ac yn deall y cyfan.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

BEIBL BYW

'Mor brydferth yw dy breswylfod, O ARGLWYDD y Lluoedd. Yr wyf yn hiraethu, yn dyheu hyd at lewyg am gyntedd-au'r ARGLWYDD; y mae'r cyfan ohonof yn gweiddi'n llawen ar y Duw byw. Cafodd hyd yn oed aderyn y to gartref, a'r wennol nyth iddi ei hun, lle mae'n magu ei chywion, wrth dy allorau di, O ARGLWYDD y Lluoedd, fy Mrenin a'm Duw. Gwyn eu byd y rhai sy'n trigo yn dy dŷ, yn canu mawl i ti'n wastadol (Salm 84:1–4).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr John Roberts, Waun-fawr. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Gweinyddir y Cymun yn yr oedfa hon.

Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Cledwyn Williams, Bangor.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig Capel Bethlehem, Talybont yn festri'r capel am 6.30 o'r gloch, nos Fawrth, Rhagfyr 5.

Bydd yr elw er budd cronfa'r Capel a'r Ysgol Sul.

Croeso cynnes i bawb.

Parti Dolig CIC

Bydd Coleg y Bala yn cynnal Parti Dolig CIC yn Y Ganolfan yn Llanberis nos Wener nesaf, Rhagfyr 8.

Mae'r noson ar gyfer clybiau CIC y Gog-ledd-orllewin. Fe'i cynhaliwyd mewn gwahanol ardaloedd dros y blynyddoedd, ond eleni ni fydd raid i ni logi bws na theithio'n bell i fod yn rhan o'r hwyl. Yn amlwg, bydd criw CIC Llanberis yn mynd yno, ac edrychwn ymlaen at gael croesawu pawb atom. Bydd y Parti o 6.30 hyd 9.15 o'r gloch.

Capel Ebeneser
HEB EI WERTHU

Adroddwyd yn *Gronyn* yn ddiweddar fod capel Ebeneser, Deiniolen wedi ei werthu mewn oscsiwn ddechrau mis Hydref. Yn ôl amodau'r ocsiwn, roedd rhaid i'r prynwr dalu blaendal ar ddydd yr ocsiwn a thalu gweddill yr arian erbyn dyddiad penodol.

Gan na dderbyniwyd gweddill yr arian erbyn dydd Gwener, Tachwedd 17, cawsom wybod gan ein cyfreithwyr na fydd y gwerthiant yn cael ei gwblhau. Bydd y darpar brynwr yn colli'r blaendal a dalodd a'r capel yn aros **heb ei werthu**.

Bydd angen i'r Pwyllgor Capel drafod beth i'w wneud nesaf er mwyn dod ag argymhelliad i'r aelodau. Ond am y tro, yr unig beth sydd angen ei ddweud yw **nad** yw'r capel wedi ei werthu hyd yma.

Priodas

Llongyfarchiadau i Bethan Roberts a Rhodri Llwyd Owen a briodwyd ddoe, ddydd Sadwrn, Rhagfyr 2 yn Capel Coch.

Dymunwn yn dda iddynt yn eu bywyd priodasol yn eu cartref yn Bontnewydd. Gweinyddwyd gan y Gweinidog. Mrs Falmai Pritchard oedd yr organydd.

Cydymdeimlo

Bu farw Mr Dewi Ellis, gynt o 12 Rhes y Cae, Llanberis yn 81 mlwydd oed yng Nghartref Marbryn, Caernarfon ar Dachwedd 19. Roedd ei angladd yng Nghapel Jerusalem, Llanberis a Mynwent Nant Peris ddydd Llun, Tachwedd 27 dan arweiniad y Parchg John Pritchard. Roedd yn aelod yng nghapel Jerusalem ond bu hefyd yn mynychu'r oedfaon yn Capel Coch am gyfnod. Cydymdeimlwn â'i ferch Eleri a'i phriod Emyr, a'u mab Huw yn eu profedigaeth.

Gair yn Gnawd

Bydd perfformiad o 'Gair yn Gnawd' yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Sul nesaf, Rhagfyr 10.

Cyfansoddwyd y cyflwyniad cerddorol hwn gan Linda Gittins, Penri Roberts a'r diweddar Derec Williams.

Ceir ynddo hanes y Nadolig ar gân. Caiff ei berfformio gan griw o gantorion lleol. Mae'r caneuon yn driw i neges y Beibl am eni Iesu, a bydd felly'n gyfle i ddathlu'r Nadolig mewn ffordd newydd a gwahanol.

Mae'r criw yn brysur ymarfer ers diwedd Medi, ac yn edrych ymlaen yn arw at y perfformiad.

Bydd tâl mynediad o £5, er mwyn codi arian at ymdrech Capel Coch at apêl 'Corwynt Cariad' Cymorth Cristnogol ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, i gefnogi pobl yn Ynysoedd y Pilipinas.

Mynnwch eich tocyn cyn i'r cyfan gael eu gwerthu.

Sioe Bypedau

Bydd Sioe Bypedau a The Parti Nadolig i blant dan 12 oed yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ddydd Mercher, Rhagfyr 6, ar ôl yr ysgol am 3.30 o'r gloch.

Y tâl mynediad fydd £2 i'r plant, a bydd hynny'n cynnwys y parti ac anrheg gan Sion Corn. Mae croeso i unrhyw blentyn i'r parti, ond mae angen prynu tocyn. Ffoniwch Heather Lynne Jones am docyn a rhagor o fanylion – 07867 982518.

Capel Coch

Bydd llyfrau ariannol y Capel yn cau ddydd Sul Rhagfyr 31, 2017. Bydd pob cyfraniad a dderbynnir wedyn yn cael ei roi yng nghyfrifon y flwyddyn 2018.